# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## Cofnodion EDT(2) 05-06

### Dyddiad y cyfarfod: 16 Mawrth 2006
### Amser y cyfarfod: 9.00 – 12.17
### Lleoliad y cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Andrew Davies (y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth) | Gorllewin Abertawe |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Alun Ffred Jones | Caernarfon |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| David Pritchard | Cyfarwyddwr yr Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth |
| Gareth Hall | Prif Weithredwr Awdurdod Datblygu Cymru |
| Robin Shaw | Prif Weithredwr, Trafnidiaeth Cymru |
| Simon Shouler | Yr Uned Polisi a Gweinyddu Trafnidiaeth |

| | |
|---|---|
| Cath Mullin | Yr Uned Strategaethau Trafnidiaeth |
| Gwyn Griffiths | Ymgynghorydd Cyfreithiol |

### Eraill yn Bresennol

| Enw | Yn cynrychioli | Eitem(au) |
|---|---|---|
| David Rosser | Cyfarwyddwr CBI Cymru | 4 |
| Adrian Treharne | Swyddfa'r Cabinet | 4 |
| Rosie Milner | Swyddfa'r Cabinet | 4 |

### Gwasanaeth y Pwyllgor

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Claire Morris | Y Clerc |
| Sarah Bartlett | Dirprwy Glerc |

### Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Cytunodd y Pwyllgor i sefydlu Is-bwyllgor i gymeradwyo penodiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r Cyngor Teithwyr Rheilffyrdd. Christine Gwyther a Janet Davies, sef enwebion penodiadau cyhoeddus y Pwyllgor, fydd Aelodau'r Is-bwyllgor.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd Mick Bates a oedd yn dirprwyo ar ran Kirsty Williams.

1.3 Roedd Leighton Andrews yn dymuno datgan buddiant gan nodi fod ei wraig yn Gyfarwyddwr BT yng Nghymru.

1.4 Mae cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael.

### Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

Papur: EDT(2) 05-06 (p.1)

2.1 Cyflwynodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ei adroddiad.

**Camau Gweithredu:**

- Cytunodd y Gweinidog i ymchwilio i honiadau ynghylch problemau o ran capasiti Band Eang yn ardal Castell-nedd ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.
- Cytunodd y Gweinidog i gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor yn nodi a fu unrhyw broblemau o ran llygredd yn hen safle Melloy Ltd.
- Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth am y prosiect i nodi lleoliadau yng Nghymru lle y gallai fod technoleg ynni llif y llanw yn addas.
- Cytunodd y Gweinidog i sicrhau bod yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r prosiect cymorth band eang arloesol rhanbarthol ar gael i'r Pwyllgor.
- O ganlyniad i Adolygiad Lyons, cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i ddarparu dadansoddiad i'r Pwyllgor o'r swyddi newydd a'r swyddi a gollwyd yn y sector cyhoeddus yn ardaloedd Amcan 1 a'r ardaloedd nad ydynt yn rhan o Amcan 1.
- Cytunodd y Gweinidog i ddarparu papur i'r Pwyllgor ar gynhwysiant cymdeithasol ac amddifadedd mewn ardaloedd gwledig, yn dilyn trafodaeth ddiweddar y Cabinet ar y mater.

## Eitem 3: Uno Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

Papur: EDT(2) 05-06 (p.2)

3.1 Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad.

**Camau Gweithredu:**

- Cytunodd y Gweinidog i gyflwyno'r siart strwythurol ar ôl yr uno i'r Pwyllgor, yn cynnwys y strwythurau ar gyfer yr is-adran ynni a'r is-adran gwledig.
- Cytunodd y Gweinidog i drefnu cyflwyniad anffurfiol ar frandio pensaernïaeth.
- Cytunodd y Gweinidog i gyflwyno'r ddogfen holi ac ateb i'r Pwyllgor a ddosbarthwyd i staff y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad.

## Eitem 4: Y Mesur Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol

Papur: EDT(2) 05-06 (p.3)
EDT(2) 05-06 (p.4)
EDT(2) 05-06 (p.5)

4.1 Croesawodd y Pwyllgor y cyflwyniadau gan swyddogion a nodwyd rhai meysydd cyffredinol a oedd yn achosi pryder.

**Camau Gweithredu:**

- Cytunodd y Cadeirydd y dylai'r Pwyllgor graffu ar yr eitem hon ymhellach.

## Eitem 5: Strategaeth Trafnidiaeth

Papur: EDT(2) 05-06 (p.6)

5.1 Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad gan swyddogion.

## Eitem 6: Gorchymyn Cychwyn Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006

Papur: EDT(2) 05-06 (p.7)

6.1 Nid oedd gan y Pwyllgor unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y Gorchymyn.

## Cam Gweithredu:

- Bydd y Clerc yn paratoi adroddiad ar gyfer y Pwyllgor Busnes.

## Eitem 7: Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a materion sy'n codi

Papur: EDT(2) 03-06 - Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror
Papur: EDT(2) 04-06 - Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth
Papur: EDT(2) 05-06 - Camau heb eu Cymryd

- Cytunwyd fod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 8 Chwefror ac ar 2 Mawrth yn gywir.

## Gwasanaeth y Pwyllgor